

## ADOLYGIADAU YMARFER OEDOLION – NWSAB1/2017 – CRYNODEB

### Cefndir:

Roedd Oedolyn A yn byw yng Ngogledd Cymru yn eu cartref eu hunain gyda mab oedd yn oedolyn ac yn ofalwr cofrestredig. Yn seiliedig ar anghenion gofal cymdeithasol/iechyd cymhleth Oedolyn A, roedd Oedolyn A yn derbyn taliadau uniongyrchol am hyd at 43 awr yr wythnos (yn cael eu rheoli gan y mab a oedd hefyd yn gweithredu fel ail ofalwr). Pennwyd nad oedd gallu gan Oedolyn A, eu bod yn gaeth i'w gwely ac ymdengys eu bod wedi bod yn ddibynol ar ofalwyr am eu holl anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Bu cyswllt sylweddol dros y blynyddoedd rhwng y teulu a'r gwasanaethau statudol (yn enwedig â Nyrsys Ardal, Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, Nyrsys Arbenigol a'r Meddyg Teulu). Dros y blynyddoedd, cafwyd nifer o adroddiadau diogelu mewn perthynas â'r trefniadau yn y cartref ac, ar adegau, gallu'r asiantaeth i fynd i mewn i'r eiddo (yn enwedig y Nyrsys Ardal). O fewn y cyfnod amser a adolygwyd (Awst 2016 – Mawrth 2017), cyflwynwyd pedwar adroddiad am oedolyn mewn perygl i dîm Diogelu'r Awdurdod Cynnal gan staff y gwasanaeth Nyrsys Ardal, a oedd yn amlygu pryderon anecdotaidd mewn perthynas ag addasrwydd y mab i ofalu am Oedolyn A. Dros y 12 mis diwethaf cyn y bu Oedolyn A farw, mae'r holl asiantaethau'n nodi bod dirywiad sylweddol o ran iechyd a arweiniodd at becyn gofal ar y cyd drwy Daliadau Uniongyrchol a chyllid Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Er gwaethaf y pryderon a godwyd gan yr asiantaethau, ni chafodd anghenion iechyd a gofal Oedolyn A eu hadolygu'n ffurfiol gan dîm amlddisgyblaeth.

Trosglwyddwyd Oedolyn A o'u cartref i uned gofal eilaidd yn Lloegr ar 7 Mawrth 2017 yn dilyn pryderon sawl asiantaeth mewn perthynas a'u cyflwyniad clinigol, ac yn anffodus, bu farw yn yr ysbyty ar 28 Mawrth 2017. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw dystiolaeth y gellid priodoli marwolaeth Oedolyn A i ganlyniad uniongyrchol i gamdriniaeth neu niwed.

### Argymhellion:

Argymhelliad 1a: Datblygu canllawiau amlasiantaeth ar gyfer rheoli teuluoedd a gofalwyr heriol.

Argymhelliad 1b: Adolygu eu hyfforddiant mewn perthynas â thechnegau rheoli gwrthdaro ar gyfer staff rheng flaen a goruchwylwyr (ymagwedd rheng flaen i ddatrys sefyllfaoedd heriol gyda theuluoedd a gofalwyr).

Argymhelliad 2: Sicrhau bod ymarferwyr a chontractwyr annibynnol wedi cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ymwybodol o egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r codau ymarfer ar gyfer cyfarfodydd lles gorau, atwrneiaeth, dirprwyon a benodir gan y llys a phwerau cyffredinol y Ddeddf ei hun).

Argymhelliad 3: Dylai trafodaethau am strategaeth ddiogelu gynnwys o leiaf manylion asesiad risg a chynlluniau amddiffyn asiantaethau lle codwyd pryderon sylweddol am oedolyn mewn perygl (dylai'r cynlluniau hyn ddangos yn glir sut mae asiantaethau'n bwriadu lliniaru'r risgiau).

Argymhelliad 4: 4a - Bod â phroses glir ar gyfer adolygu taliadau uniongyrchol a gynigir i achosion cymhleth hirdymor. Dylai'r broses hon nodi manylion adolygu a rheoli taliadau uniongyrchol yn glir pan mae mwy o angen oriau ychwanegol.

4b - Yn rhan o'r rhaglen taliadau uniongyrchol, datblygu proses sgrinio addasrwydd y prif ofalwr i ofalu am gleientiaid cymhleth lle mae anghenion gofal iechyd sylweddol (gan gynnwys tystiolaeth bod ystyriaeth lawn yn cael ei chynnig ar gyfer achosion lle mae'r gofalwr yn methu ag ymdopi a sut mae hyn yn dod i'r golwg).

Argymhelliad 5: 5a - Cytuno ar broses i adolygu cyd-becynnau gofal er mwyn sicrhau bod yr unigolion hynny sydd â mwy o anghenion/cymhlethdodau yn cael eu hadolygu'n ffurfiol gan dîm amlddisgyblaeth – gan gynnwys cwblhau adnodd cefnogi penderfyniadau, lle bo hynny'n briodol. Dylai'r broses hon nodi pwy yw'r asiantaeth arweiniol yn glir (cydlynedd gofal).

5b - Ar gyfer achosion lle codir pryderon yn aml, dylid o leiaf gynnal cyfarfod gweithwyr proffesiynol i ystyried beth yw opsiynau'r tîm amlddisgyblaeth.

**Argymhelliad 6:** Datblygu proses glir i reoli eu staff yn ffurfiol a'u goruchwyllo'n glinigol, gan sicrhau bod ganddynt gefnogaeth i uwchgyfeirio pryderon a lleihau'r perygl o orweithio gydag achosion cymhleth. Pan mae pryderon nad yw staff yn hyderus yn eu dull o ddiogelu achosion cymhleth, dylai'r tîm diogelu corfforaethol gefnogi hyfforddiant pwrpasol/cynnig cefnogaeth a goruchwyliaeth i gydweithwyr.

**Argymhelliad 7:** Penodi swyddog arweiniol i sicrhau bod polisi methu cael mynediad yn cael ei weithredu'n llawn ar gyfer gwasanaethau cymunedol ledled y rhanbarth.